Mandad Cyfreithiol Technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR) Heddlu De Cymru / Heddlu Gwent

Crynodeb: Yn amlinellu'r sail gyfreithlon dros ddefnydd agored Heddlu De Cymru / Heddlu Gwent o OIFR

Enw'r Heddlu	Heddlu De Cymru / Heddlu Gwent
Testun	Technoleg Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr (OIFR)
Crynodeb	Yn amlinellu'r sail gyfreithlon dros ddefnydd agored Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o OIFR i adnabod personau ar Gronfa Ddata/Cronfeydd Data Cyfeirio Delweddau.
Awdur	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd

Enw'r Prosiect	Technoleg Adnabod Wynebau
Yr Uwch-Swyddog Cyfrifol –	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Mark Travis
Maes Busnes/Adran	Yr Is-adran Gwasanaethau Digidol
Dyddiad gweithredu arfaethedig	Ar unwaith
Rhif Cyfeirnod *(i'w bennu gan y system Rheoli Gwybodaeth)*	

Rheoli newid:

Fersiwn	Dyddiad	Awdurdod	Tystiolaeth o gymeradwyo	Cofnod o newid

0.1	27.07.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Drafft Cychwynnol
0.2	01.10.2021	Arweinydd y Prosiect	Y Prif Arolygydd Scott Lloyd	Terminoleg Genedlaethol
0.3	03.11.2021	Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau	Adolygiad Llywodraethu	Dim Diwygiadau
0.4	25.01.2022	Pennaeth yr Is-adran Gwasanaethau Digidol	Prif Uwch-arolygydd Simon Belcher	Cymeradwyo'r Cynllun Peilot Dim Diwygiadau

1 Cyflwyniad_____3

2 Y Gyfraith Gyffredin _____4

3 Deddf Hawliau Dynol 1998_____5

4 Deddf Cydraddoldeb 2010 _____12

5 Deddf Diogelu Data 2018 _____14

6 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data _____18

7 Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 _____19

8 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 _____20

Termau a Diffiniadau: Bydd i dermau mewn priflythrennau a ddefnyddir yn y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer OIFR yr ystyr a roddir iddynt yn adran 3 o'r Ddogfen Bolisi ar gyfer OIFR oni chânt eu diffinio fel arall.

1 Cyflwyniad

1.1 Nid yw'r defnydd o OIFR at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth sylfaenol benodol. Rheoleiddir OIFR gan nifer o ffynonellau o ddeddfwriaeth sylfaenol yn ogystal â pholisïau lleol. Mae'r 'tapestri' hwn o ddeddfwriaeth yn ymgyfuno i ddarparu strwythur cyfreithiol amlhaenog i ddefnyddio a rheoleiddio OIFR.

Haen un: Deddfwriaeth	Pŵer Cyfreithiol i ddefnyddio OIFR	a) Cyfraith Gyffredin
	Yn rheoleiddio'r defnydd o OIFR	**Gweithredol** b) Deddf Hawliau Dynol 1998 c) Deddf Cydraddoldeb 2010 **Rheoli Data** d) Deddf Diogelu Data 2018/y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data e) Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
	Cais am Wybodaeth mewn perthynas ag OIFR	f) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 g) Deddf Diogelu Data 2018 (Ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun)
Haen Dau: Dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu	Yn rheoleiddio'r defnydd o OIFR	a) Dogfen Bolisi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent b) Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent c) Dogfennau Hyfforddi Heddlu De Cymru/Heddlu

Gwent		Gwent d) Dogfennau Polisi Priodol Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ar gyfer Diogelu Data e) Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent f) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent g) Mandad Cyfreithiol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent

2 Y Gyfraith Gyffredin

2.1 Mae gan yr heddlu nifer o gyfrifoldebau a phwerau sefydledig sy'n deillio o'r gyfraith gyffredin sydd wedi cael eu cydnabod gan y llysoedd. Mae'n rhaid i Heddlu De Cymru gydymffurfio â'r gyfraith gyffredin a mesurau diogelwch statudol wrth gyflawni ei ddyletswyddau plismona gweithredol ac mae'n dibynnu ar y gyfraith gyffredin i gyflawni nifer o'i ddyletswyddau.

2.2 Ymhlith y pwerau allweddol o dan y gyfraith gyffredin y gall Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ddibynnu arnynt wrth ddefnyddio OIFR mae pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin i wneud y canlynol:

(a) diogelu bywydau ac eiddo;

(b) cadw trefn ac atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd;

(c) atal a chanfod troseddau;

(d) dwyn troseddwyr gerbron y llys;

(e) cynnal diogelwch gwladol.

Enghraifft: Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi nodi sut y gellir defnyddio OIFR fel tacteg blismona er mwyn dod o hyd i unigolion y maent yn chwilio amdanynt mewn cysylltiad â gwarant heb ei chyflawni. Yn y cyd-destun hwn, byddai defnyddio OIFR er mwyn helpu swyddogion i ddod o hyd i unigolion sy'n osgoi cael eu harestio yn brydlon yn galluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu bywyd ac eiddo. Byddai hefyd yn cyd-fynd â dyletswydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ddwyn troseddwyr gerbron y llys drwy hwyluso ymchwiliad prydlon ac effeithiol.

2.3 Mae defnydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o bwerau cyfraith gyffredin fel sail gyfreithlon dros gefnogi'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau ar ffurf technoleg adnabod wynebau byw wedi cael ei ystyried a'i gydnabod gan y llysoedd yn:

a) *R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2019] EWHC 2341 (Gwein)* (penderfyniad "High Court Bridges");
b) R (ar gais Edward Bridges) v Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru [2020] EWCA Civ 1058 (penderfyniad "Court of Appeal Bridges").

Crynhodd y Llys Apêl y sail gyfreithlon mewn perthynas â llunio Rhestrau Gwylio ymhellach fel un sydd wedi'i hawdurdodi "under the Police and Criminal Evidence Act 1984 and within the powers of police at common law." Mae'r cyfeiriad at Ddeddf 1984 yn cyfeirio at ddelweddau a geir yn unol ag Adran 64A ('*Photographing of suspects etc.')* o'r Ddeddf ac yn arbennig adran 64A(4)(a) sy'n caniatáu i lun gael ei dynnu o dan yr adran i'w ddefnyddio "for any purpose related to the prevention or detection of crime, the investigation of an offence or the conduct of a prosecution or to the enforcement of a sentence". Mae'r Llys Apêl yn nodi "[that] this was not an issue which we have to address in this appeal, since it is now common ground that SWP do have the power to deploy [LFR]."

3 **Deddf** Hawliau Dynol 1998

3.1 Bydd defnydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o OIFR yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r defnydd o OIFR yn codi materion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac, yn benodol, gallai OIFR effeithio ar hawliau unigolyn o dan Erthygl 8, sef yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol. Mae'r erthygl hon yn darparu:

'There shall be no interference by a public authority with the exercise of the right except such as in accordance with the law and is necessary in a demographic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others.'

3.2 Fel hawl amodol, dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caniateir ymyrryd â hawliau unigolyn o dan Erthygl 8:

a) mae **sail gyfreithlon** dros ymyrryd â'r hawl amodol y gall y cyhoedd ei deall;

b) Diben OIFR yw cyflawni'r **nod dilys**;

c) mae'n **angenrheidiol** at ddibenion y nod hwnnw mewn cymdeithas ddemocrataidd;

d) mae defnyddio OIFR yn gymesur â'r nod dilys y ceisir ei gyflawni.

3.2.1 Mae'n ffaith sefydledig bod Erthygl 8 yn eang ei chwmpas. Mae achos *S v. y Deyrnas Unedig*[1] yn cadarnhau y gall hyn ymwneud â hawl unigolyn i weld ei ddata biometrig ac unrhyw ddata sy'n cael eu storio sy'n ymwneud â'i ddata biometrig. Gan gydnabod bod y defnydd o OIFR yn cynnwys prosesu data biometrig, aeth yr achos hwnnw ymlaen i gydnabod, wrth ddiogelu'r data personol a mathau eraill o weithgarwch prosesu biometrig, y gall "the legitimate interest in the prevention of crime" fod yn drech na buddiannau testun y data a'r gymuned.[2]

[1] *(2009) 48 EHRR 50, yn [66 a 67]*
[2] *Yn [104]*

3.3 Ystyriodd achosion 'High Court Bridges' a 'Court of Appeal Bridges' Erthygl 8, yn benodol yng nghyd-destun technoleg adnabod wynebau byw a chadarnhawyd bod hawliau Erthygl 8 yn codi i'r graddau y mae rhywun yn mynd drwy'r Parth Adnabod ac i'r graddau y mae rhywun yn cael ei roi ar restr wylio a ddefnyddir mewn ymgyrch adnabod wynebau byw. Yn dibynnu ar natur y defnydd a wneir o'r dechnoleg, mae'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth wedi nodi y gellid effeithio ar hawliau dynol eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i ryddid i ymgynnull, rhyddid meddwl, cred a chrefydd, rhyddid mynegiant, rhyddid i ymgysylltu a'r hawl i gael eich diogelu rhag gwahaniaethu mewn perthynas â'r hawliau a'r rhyddidau hynny.

3.4 **Mae sail gyfreithlon dros ymyrryd â'r hawl amodol y gall y cyhoedd ei deall**

Defnyddir OIFR i alluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gyflawni eu dyletswyddau gweithredol sefydledig yn unol â'r gyfraith gyffredin. Mae'r llysoedd wedi cydnabod nad oes angen i'r rheolau fod yn statudol "... providing they operate within a framework of law and that there are effective means of enforcing them".[3]

Yn achos *R (Catt) v Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu [2015] A.C. 1065,* cydnabu'r Arglwydd Sumption y gallai gwybodaeth bersonol ceisyddion gael ei chofnodi a'i chadw gan yr heddlu gan eu bod yn meddiannu mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Cydnabu'r llys fod pwerau'r heddlu o dan y gyfraith gyffredin i gasglu a storio gwybodaeth yn destun "intensive regime of statutory and administrative regulation" o dan y Ddeddf Diogelu Data a gwahanol ddogfennau canllaw ar reoli gwybodaeth yr heddlu.

Mae'r llysoedd hefyd wedi cydnabod hawl yr heddlu i ddefnyddio ffotograff o unigolyn. Derbyniodd y llysoedd y dibenion o atal a chanfod troseddau, ymchwilio i droseddau honedig a dal unigolion dan amheuaeth neu unigolion sy'n rhydd yn anghyfreithlon. Roedd hyn yn wir p'un a yw'r ffotograff yn ffotograff o unrhyw unigolyn y mae'n ceisio ei arestio ai peidio neu'n ffotograff o gynorthwy-ydd unigolyn dan amheuaeth neu o unrhyw un arall. Cadarnhaodd y llys mai'r "key is that they must have these and only these purposes in mind and must … make no more than reasonable use of the picture in seeking to accomplish them".[4]

3.5 Yn achos defnydd Heddlu De Cymru o dechnoleg adnabod wynebau byw, mae'r Fframwaith Cyfreithiol ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn amlinellu'r sail gyfreithlon dros ymyrryd â hawliau unigolyn o dan Erthygl 8. Cadarnhaodd achos 'High Court Bridges' fod pwerau'r heddlu o dan y gyfraith gyffredin yn "amply sufficient" mewn perthynas â'r math hwn o ddefnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw a chadarnhaodd nad oes angen pwerau statudol penodol newydd ar yr heddlu at y diben hwn. Ystyriwyd hyn ymhellach yn achos 'Court of Appeal Bridges' a gydnabu hefyd fod y fframwaith cyfreithiol yn ddigonol, gan nodi[5]:

[3] R (*Catt) v Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu [2015] A.C. 1065* yn [11].
[4] Yn ôl Laws J yn *Hellewell v Prif Gwnstabl Swydd Derby [1995] 1 WLR 804 at 810F*
[5] *Yn [69].*

"the legal framework which regulates the deployment of [SWP's use of LFR] does contain safeguards which enable the proportionality of the interference with Article 8 rights to be adequately examined."

3.6 Nododd penderfyniad 'Court of Appeal Bridges' hefyd, er mwyn bod 'in accordance with the law' fod yn rhaid i'r sail gyfreithlon fod yn:

"'accessible' to the person concerned, meaning that it must be published and comprehensible, and it must be possible to discover what its provisions are. The measure must be 'foreseeable' meaning that it must be possible for a person to foresee its consequences for them and it should not 'confer a discretion so broad that its scope is in practice dependant on the will of those who apply it, rather than on the law itself".

3.7 Wrth ystyried hygyrchedd a rhagweladwyedd, ystyriodd y Llys Apêl faint o ddisgresiwn a oedd gan swyddogion Heddlu De Cymru yn yr achos ger ei fron i benderfynu *ble* y byddent yn defnyddio technoleg adnabod wynebau ac yn achos *pwy* y byddent yn ei defnyddio er mwyn dod o hyd i'r rhai ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau. Mae'r llys yn cyfeirio at hyn fel y "Cwestiwn Pwy" a'r "Cwestiwn Ble".

a) Y 'Cwestiwn Pwy': Wrth ystyried sut y dylid ateb y 'Cwestiwn Pwy', nododd y Llys Apêl yn glir nad yw'r gyfraith yn ceisio cadarnhad penodol ynglŷn â phwy sydd ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau (mae'n cydnabod egwyddor NCND6). Cydnabu'r Llys Apêl y gellid ychwanegu unigolion at restr wylio ar sail y ffaith "[that they are] wanted on suspicion of an offence, wanted on warrant and vulnerable persons".

b) Mae'r Llys Apêl hefyd yn esbonio pam nad oedd y categori o "other persons where intelligence is required" yn hygyrch nac yn rhagweladwy i fodloni'r prawf 'in accordance with the law'. Nododd nad oedd y categori yn hawdd i'w ddeall nac yn wrthrychol – roedd yn gadael "too broad a discretion vested in the individual police officer to decide who should go onto the watchlist" – i bob pwrpas roedd yn caniatáu i swyddogion yr heddlu benderfynu beth oedd ystyr 'other persons where intelligence is required' fesul achos yn hytrach na phenderfynu a oedd unigolyn yn bodloni'r meini prawf a nodir ym mholisi'r heddlu.

c) Er y cydnabyddir bod gwahaniaethau gweithredol a chyfreithiol penodol rhwng defnyddio technoleg adnabod wynebau byw ac OIFR, mae angen ymdrin â'r pwyntiau hyn wrth ddefnyddio OIFR.

d) Ar ôl ymgysylltu a gydnabuwyd gan y Llys Apêl[7], mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ymdrin â'r 'Cwestiwn Pwy' yn nogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn pennu'r meini prawf sy'n gymwys i reoli'r delweddau a allai gael eu cynnwys ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau ac o dan ba amgylchiadau. Mae'n nodi'r safon sy'n ofynnol i gynnwys delwedd ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau, gan gysylltu'r rheidrwydd a'r meini prawf ar gyfer cynnwys delwedd ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau â'r angen plismona a chymesuredd cymryd unrhyw gamau.

[6] *Yn [95].*
[7] *Yn [118].,*

e) Y ‘Cwestiwn Ble’: Nododd y Llys Apêl nad oedd tîm Heddlu De Cymru yn gallu “draw to our attention anything which specifies where AFR Locate may be deployed”. Mae dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ateb y cwestiwn hwn. Wrth ateb y cwestiwn hwn, mewn llawer o achosion, bydd yr angen i adnabod person yn pennu ble y gellir defnyddio OIFR.

Gyda mantais penderfyniadau *Bridge*, mae'r gyfraith bellach wedi'i chymhwyso at y defnydd byw o dechnoleg adnabod wynebau. Mae egwyddorion y penderfyniadau hyn, ynghyd â dogfennaeth gyhoeddedig Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gefnogi'r defnydd OIFR ac egwyddorion y Fframwaith Cyfreithiol i'w cymhwyso'n rhagweladwy at y defnydd o OIFR mewn ffordd hygyrch a dealladwy. Mae'n galluogi'r cyhoedd sy'n destun OIFR a'r rhai a all gael eu rhoi ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau i ddeall y safonau y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn gweithredu'n unol â nhw, gan gynnwys nodi'r rheswm a'r seiliau dros ddefnyddio OIFR, manylion ynglŷn â ble y gellir defnyddio OIFR, a'r ystyriaethau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol o ran pwy a all gael ei roi ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

3.8 **Mae'r defnydd o OIFR yn ceisio cyflawni nod dilys**

Mae Erthygl 8 yn cydnabod camau gweithredu i gynnal diogelwch gwladol, diogelu'r cyhoedd ac atal anhrefn a throseddau fel nodau dilys. Bydd y defnydd o OIFR yng nghyd-destun cynorthwyo Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn y gwaith o adnabod troseddwyr yn helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gyflawni eu dibenion gorfodi'r gyfraith.

3.9 **Mae'r defnydd o OIFR yn *angenrheidiol* at ddiben y nod dilys hwnnw mewn cymdeithas ddemocrataidd.**

Caiff OIFR ei defnyddio mewn ymateb i angen cymdeithasol dybryd drwy helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ymladd yn erbyn troseddu mewn ardaloedd lle mae gan OIFR y potensial mwyaf i gynorthwyo. Adnodd ydyw sy'n helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i gyflawni eu cyfrifoldebau gweithredol, yn bennaf drwy helpu i atal a chanfod troseddau a diogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r canlynol yn enghraifft o ble y gellir defnyddio OIFR fel adnodd angenrheidiol i helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i atal troseddau ac anhrefn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain a bydd senarios eraill yn codi lle y gellir cyfiawnhau'r defnydd o OIFR.

Cam-drin plant yn rhywiol: Bydd y defnydd o OIFR yn helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol. Gellid defnyddio OIFR yn seiliedig ar gudd-wybodaeth i ddod o hyd i unigolion coll sy'n blant y credir eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin yn rhywiol. Yn yr un modd, gellid defnyddio OIFR mewn digwyddiadau mawr, prysur y gwyddys y bydd rheibwyr rhywiol yn bresennol mewn ymgais i'w hadnabod ac atal ymosodiadau tebyg. Mae ymchwiliadau sy'n ymwneud ag unigolion coll yn defnyddio cryn dipyn o adnoddau'r heddlu pan fo angen dod o hyd i'r unigolion hynny cyn gynted â phosibl. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig iawn bod yr heddlu yn defnyddio pob mesur rhesymol er mwyn sicrhau bod ganddo'r siawns orau o lwyddo i adnabod unigolyn pan fydd y cyfleoedd adnabod, sy'n aml yn brin, yn codi. Ar adegau, efallai y bydd yr heddlu hefyd yn

gofyn i'r cyhoedd helpu i ddod o hyd i bobl sydd ar goll drwy ddefnyddio apeliadau cyhoeddus, drwy ddosbarthu ffotograff o blentyn sy'n agored i niwed yn y cyfryngau. Gallai hyn ymyrryd llawer mwy â hawliau'r unigolyn i breifatrwydd o ystyried mai nod yr apêl gyhoeddus yw codi mwy o ymwybyddiaeth a bod gwybodaeth yn mynd y tu hwnt i reolaeth yr heddlu pan gaiff ei chyhoeddi. Lle y gallai fod yn ddichonadwy defnyddio OIFR fel adnodd i adnabod yn lle hynny, gall y lefel o ymyrryd â hawliau preifatrwydd yr unigolyn fod yn is, ond mae'n dal i gynnig modd i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent gyflawni eu cyfrifoldebau o dan gyfraith gyffredin i ddiogelu bywyd.

Yn ychwanegol at hynny, mewn hinsawdd lle mae angen i heddluoedd weithredu'n effeithlon, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd wedi nodi y gall technoleg megis OIFR helpu gyda'r heriau sy'n gysylltiedig ag adnabod yn gyflym ac yn gosteffeithlon y rhai â gwarantau heb eu cyflawni neu sydd fel arall wedi torri amodau eu mechnïaeth. Mae'n iawn ac yn briodol dod â'r unigolion hynny sy'n rhydd yn anghyfreithlon gerbron y llys gan nodi'r angen i ddiogelu'r cyhoedd o dan amgylchiadau o'r fath.

3.10 **Mae defnyddio OIFR yn gymesur â'r nod dilys y ceisir ei gyflawni**

Er y cydnabyddir na fyddai'r defnydd o OIFR yn dod o dan y diffiniad o 'gamera gwyliadwriaeth', mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ymrwymedig i gadw at yr egwyddorion a nodwyd. Ni ddylai manteision defnyddio OIFR ar gyfer ymchwiliad neu ymgyrch fod yn anghymesur nac yn fympwyol. Yn hyn o beth, mae'r Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth yn cydnabod:

"used appropriately, current and future technology can and will provide a proportionate and effective solution where surveillance is in pursuit of a legitimate aim and meets a pressing need".

Un o amcanion y defnydd o OIFR yw adnabod unigolion sydd o ddiddordeb i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a defnyddio OIFR gyda'r nod o'u dal, gan leihau nifer y troseddau mewn ardal berthnasol.

a) *Dylid ystyried graddau unrhyw ymyrraeth arfaethedig â phreifatrwydd yn erbyn yr hyn y ceisir ei gyflawni ac a oes dulliau ymarferol eraill o gyflawni'r nod sy'n cynnwys llai o ymyrraeth.*

Dylid ystyried y defnydd o OIFR o'i chymharu â dulliau eraill o adnabod personau o ddiddordeb i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a/neu awdurdodau gorfodi'r gyfraith yn y DU. Ystyrir pa mor effeithiol ac ymwthiol yw dulliau ymarferol eraill a allai gyflawni'r un canlyniad, gyda'r dull ymarferol lleiaf ymwthiol yn cael ei fabwysiadu er mwyn bwrw ymlaen ag ymchwiliad.

Enghraifft: Gall y defnydd o OIFR i gadarnhau pwy yw person neu ei ddiystyru fod yn llai ymwthiol nag arestio unigolyn er mwyn cadarnhau pwy ydyw yn ddiweddarach mewn gorsaf heddlu drwy ddefnyddio olion bysedd neu DNA.

Rheolaethau cymesuredd. Mae rheolaethau hefyd yn rhan o OIFR a'r ffordd y'i gweithredir er mwyn helpu i leihau unrhyw effaith ar y cyhoedd a'r lleoedd hynny ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau fel a ganlyn:

I. Ni ellir defnyddio OIFR i adnabod personau oni bai eu bod wedi'u cynnwys ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.
II. Bydd delweddau o unigolion ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau yn cael eu dal yn gyfreithlon gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a chaiff pob cam rhesymol ei gymryd i sicrhau bod y ddelwedd o unigolyn y bwriedir iddo gael ei gynnwys ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau benodol.
III. Wrth ychwanegu delwedd at y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau, bydd y system technoleg adnabod wynebau byw yn asesu'r ddelwedd o ran ansawdd ac addasrwydd ar gyfer cyfatebiad er mwyn galluogi personél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ystyried a rheoli risg delweddau o ansawdd gwael sy'n dychwelyd delweddau OIFR anghywir.
IV. Mae pob Cronfa Ddata Cyfeirio Delweddau wedi'i chydbwyso yn ôl ei dyluniad â chronfeydd data ffynhonnell drwy gymharu gwerthoedd hash delweddau.
V. Mae'r camera a ddefnyddir ar gyfer OIFR o ansawdd digonol ar gyfer anghenion y system technoleg adnabod wynebau.
VI. Mae OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau yn 'gaeedig' ac nad yw wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â systemau eraill Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent na'r rhyngrwyd.
VII. Mae OIFR wedi'i chynllunio i helpu personél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i adnabod pobl. Bydd OIFR bob amser yn dychwelyd chwe chyfatebiad posibl i'r Gweithredwr er mwyn iddo/iddi benderfynu ar unrhyw gamau pellach yn hytrach na gwneud penderfyniad annibynnol ar unrhyw gamau ar ôl cynnig cyfatebiad posibl.
VIII. Caiff OIFR a'r deunyddiau sy'n cefnogi'r defnydd o OIFR yn cael eu hadolygu ar ôl cynllun peilot OIFR er mwyn sicrhau bod OIFR a'r ffordd y mae'n gweithredu yn dal yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn effeithiol o ran cyflawni'r achos dros ei defnyddio.

Mae rheolaethau hefyd wedi cael eu rhoi ar waith o ran cadw data personol er mwyn lleihau'r effaith ar y cyhoedd yn fwy cyffredinol a'r rhai sydd ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau. Mae'r rheolaethau yn darparu:

1. bod delwedd o berson sy'n destun OIFR a'i ddata biometrig yn cael eu dileu'n awtomatig ar unwaith.

Mae OIFR yn defnyddio ystyriaethau preifatrwydd yn y lleoliad. Bydd y defnydd o OIFR yn cael ei nodi fel defnydd angenrheidiol yn ôl y wybodaeth a'r gudd-wybodaeth wrth ystyried y rheswm a'r seiliau dros ei defnyddio a'r achos sy'n cefnogi'r posibilrwydd o adnabod person. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Gweithredwr hefyd ystyried y disgwyliadau rhesymol sydd gan aelodau'r cyhoedd o ran preifatrwydd pan fyddant mewn lle cyhoeddus a phreifat. Mae'r disgwyliadau o ran preifatrwydd yn uwch yn achos rhai mannau a'r bobl y disgwylir iddynt fod mewn rhai mannau a hynny oherwydd eu natur, nag ydynt ar gyfer mannau a phobl eraill.

Enghraifft: Fel arfer, byddai'r disgwyliadau o ran preifatrwydd yn uwch yn achos ardaloedd sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddarparu cyfleusterau neu atyniadau i blant nag y byddent yn achos ardal sy'n denu aelodau o'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Serch hynny, bydd achosion yn codi o bosibl lle mae'r wybodaeth a'r gudd-wybodaeth, a'r angen i ddiogelu plant yn ei gwneud yn angenrheidiol ac yn gymesur i ddefnyddio OIFR yn yr ardaloedd hynny. Er enghraifft, os gwyddys bod troseddwyr rhyw y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt yn targedu'r rhai sy'n ymweld â'r lleoliad ac nad oes modd eu hadnabod drwy dactegau plismona llai ymwthiol. Os bydd angen defnyddio OIFR yn y lleoliad, dylid cymryd camau lliniaru i leihau'r effaith ar breifatrwydd lle bynnag y bo modd, megis cymryd gofal arbennig i sicrhau na chaiff unrhyw drydydd parti ei ddal yn y ddelwedd chwilota.

3.11 Ystyriaethau ehangach o ran y Ddeddf Hawliau Dynol

Mae'r hawl i breifatrwydd yn werth sy'n diogelu annibyniaeth ac urddas dynol unigolion drwy eu galluogi i fyw eu bywydau fel y dewisant. Felly, bydd amgylchiadau pan allai rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 9), rhyddid mynegiant (Erthygl 10) a rhyddid i ymgynnull a rhyddid i ymgysylltu (Erthygl 11) yn arbennig o berthnasol.

a) *Erthygl 9.* Gall y dillad y mae pobl yn ei wisgo fod yn weithred sy'n gysylltiedig â meddylfryd, cydwybod a chrefydd ac o dan amgylchiadau arferol nid oes gan yr heddlu y pŵer cyfreithiol i'w gwneud yn ofynnol i berson dynnu dillad (gan gynnwys unrhyw benwisg) am eu bod yn destun OIFR yn unig. At hynny, gall y lleoliad lle mae pobl yn destun OIFR hefyd godi materion sy'n ymwneud ag Erthygl 9.

b) Mae *Erthyglau 10 ac 11* yn berthnasol iawn wrth ystyried plismona cynulliadau a gwrthdystiadau ac unrhyw ddefnydd o OIFR a all effeithio ar gynulliad neu wrthdystiad. Mae Erthygl 10 yn arbennig o berthnasol pe bai gan bobl amheuon ynglŷn â mynegi eu hunain o ganlyniad i'r defnydd o OIFR. Mae Erthygl 11 hefyd yn berthnasol pe bai'r defnydd o OIFR yn atal pobl rhag mynd i gynulliad neu wrthdystiad o gwbl neu fel arall achosi pobl i gyfyngu ar eu hymwneud i'r eithaf.

Enghraifft: Gall y defnydd o OIFR helpu Heddlu De Cymru i blismona cynulliad neu wrthdystiad, yn enwedig lle mae achos cudd-wybodaeth sy'n ategu bod risg i ddiogelwch y cyhoedd. Yn benodol, gall OIFR helpu Gweithredwyr drwy adnabod yn effeithlon unigolion dan amheuaeth o drais mewn lleoliadau gorlawn lle y gallai fod yn anodd fel arall eu hadnabod. Wrth benderfynu bod y defnydd o OIFR yn angenrheidiol ac yn gymesur, dylid rhoi sylw i hawliau unigolyn o dan Erthygl 10 ac Erthygl 11 – gan nodi y gall fod disgwyliadau o anhysbysrwydd mewn torf ac y gall unigolion ddewis newid y ffordd y mae'n gwrthdystio o ganlyniad i'r defnydd o OIFR.
Mae'n rhaid pwyso hawliau Erthygl 10 ac Erthygl 11 yn erbyn yr angen i ddefnyddio OIFR i alluogi cynulliad y gallai'r risg i ddiogelwch y cyhoedd fel arall darfu arno. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylid ystyried ffactorau a allai leihau effaith y defnydd o OIFR i'r eithaf. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod y cyhoedd yn deall bod OIFR yn cael ei defnyddio i'w helpu i ymgynnull yn ddiogel.

c) Dyletswyddau Gweithredol

Amlinellwyd y 'ddyletswydd weithredol' am y tro cyntaf yn achos *Osman v y Deyrnas Unedig*[8] ac roedd yn ymwneud â methiant honedig i ddiogelu'r dioddefwr ifanc a'i deulu rhag y risg i fywyd a oedd yn cael ei beri gan stelciwr. Yn achos *Osman* dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod gan yr heddlu ddyletswydd gadarnhaol i gymryd camau rhesymol i atal risg wirioneddol ac uniongyrchol i fywyd unigolyn neu unigolion a nodwyd yr oedd yr heddlu yn ymwybodol ohono (ohonynt) neu y dylai'r heddlu fod wedi bod yn ymwybodol ohono (ohonynt). Mae cyfraith achosion hefyd yn cadarnhau bod gan yr heddlu ddyletswydd debyg i ddyletswydd Osman i ymchwilio i honiadau difrifol yn amserol ac yn effeithlon er mwyn cynnal hawliau unigolyn o dan Erthygl 3.

Mae dyletswydd weithredol Osman yn berthnasol iawn i OIFR mewn dau gyd-destun (i) wrth ei defnyddio i adnabod y rhai sy'n fygythiad i'r cyhoedd neu'n fygythiad iddyn nhw eu hunain lle nodir risg wirioneddol neu uniongyrchol i fywyd ac ystyrir bod OIFR yn cynnig ymateb priodol i risg o'r fath a (ii) ar ôl i'r chwe chyfatebiad posibl gael eu dychwelyd, yr angen i weithredu yn unol â dyletswydd weithredol Osman gyda mesurau ar waith pe bai person sy'n cael ei baru yn ceisio dianc rhag swyddogion.

4 Deddf Cydraddoldeb 2010

4.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith cyfreithiol er mwyn diogelu hawliau unigolion a hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu yn seiliedig ar driniaeth wahanol ar sail nodwedd warchodedig. Mae'r gwaharddiad ar wahaniaethu yn gymwys i wahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'n rhaid i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent gydymffurfio ag adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a elwir yn Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel arfer.

4.2 Mae'n ofynnol i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent gymryd camau i sicrhau bod y defnydd o OIFR yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen rhoi sylw arbennig i ddau beth: (a) perfformiad technegol OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau (ac yna, os yw perfformiad yn amrywio yn ôl unrhyw ddemograffeg benodol), a (b) y defnydd gweithredol o OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau:

a) Perfformiad technegol OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau

Mae penderfyniad Bridges y Llys Apêl yn nodi'n glir fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent gymryd camau rhesymol i'w bodloni eu hunain, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddilysu annibynnol, nad yw'r algorithm yn yr achos hwn yn cynnwys rhagfarn annerbyniol ar sail hil neu ryw. Er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall sut mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae Heddlu De

[8] [1999] 1 F.L.R. 193 (ECtHR)

Cymru/Heddlu Gwent wedi cyhoeddi Asesiad Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o Effaith OIFR ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys:

1. **Gwerthusiad annibynnol:** Mae nifer o astudiaethau yn tynnu sylw at berfformiad amrywiol algorithmau adnabod wynebau a'r potensial i berfformiad algorithmau amrywio yn dibynnu ar ffactorau demograffig. O ganlyniad, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi rhoi sylw i'r gwerthusiadau a wneir gan Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Thechnoleg (NIST) sydd wedi gwerthuso tua 200 o algorithmau adnabod wynebau o ran cywirdeb ystadegol a pherfformiad demograffig, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan NEC – y darparwr a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.

2. **Sicrwydd parhaus:**Mae dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn darparu ar gyfer gwerthusiadau parhaus a phroses adolygu ar ôl defnyddio. Mae hyn yn adlewyrchu natur barhaus Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae hefyd yn cynnig cyfle i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent fonitro ar gyfer problemau technegol drwy adolygu'r holl gyfatebiadau posibl a monitro ar gyfer tueddiadau. Pe bai pryder yn cael ei nodi, yna byddai Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent mewn sefyllfa i ystyried hynny ymhellach a phrofi am broblemau o dan oruchwyliaeth a chraffu Bwrdd Rhaglen Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg Heddlu De Cymru.

3. **Gwerthusiad academaidd annibynnol:**Mae Heddlu De Cymru wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r holl agweddau ar Dechnoleg Adnabod Wynebau, gan gynnwys OIFR. Caiff y gwerthusiad ei gynnal gan academyddion annibynnol a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar degwch o ran ethnigrwydd, oedran a rhyw. Bydd yr astudiaeth yn dechrau yn chwarter 3 2021 a chaiff adolygiadau parhaus yn ystod oes yr astudiaeth eu hystyried o dan oruchwyliaeth a chraffu Bwrdd Rhaglen Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg Heddlu De Cymru.

b) Defnyddio OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau yn weithredol.

Mae dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd yn ymateb i Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Amgylchedd er mwyn sicrhau bod OIFR yn addas at y defnydd a fwriadwyd ac yn cael ei gweithredu'n gywir. Mae Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Amgylchedd yn cynnwys agweddau megis cyfluniad y camera, golau, y pellter rhwng unigolion a chamera'r Ddyfais OIFR a phwyntiau sy'n ymwneud ag oedran ac ymddangosiad unigolyn wedi cael eu hystyried yn ofalus yn nogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent er mwyn sicrhau effeithlonrwydd OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau a chydymffurfiaeth Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er enghraifft, mae dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn darparu bod yn rhaid i ddefnyddwyr OIFR gael eu hyfforddi i adnabod problemau gyda delweddau chwilota a all effeithio ar berfformiad y system. Lle y tybir bod yr angen i ddefnyddio delwedd yn angenrheidiol ac yn gymesur, mae'r rhai sy'n defnyddio OIFR wedi cael hyfforddiant i

sicrhau perfformiad gorau posibl OIFR ac ystyried yn effeithiol unrhyw broblemau sy'n codi yn sgil defnyddio delweddau o'r fath fel rhan o'r broses adnabod.

O ganlyniad i gymryd pob cam rhesymol i ddeall cywirdeb ystadegol a thegwch perfformiad OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ac wedyn yng ngoleuni pwyntiau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Amgylchedd, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi mabwysiadu sefyllfa 'wrth gefn' er mwyn sicrhau, yn absenoldeb seiliau cyfreithlon eraill dros weithredu gan yr heddlu:

> **na fydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud yn awtomataidd. Bydd y Gweithredwr yn adolygu cyfatebiadau posibl OIFR, a thrwy hynny lunio ei farn/barn ei hun a oes cyfatebiad rhwng y Testun a'r ddelwedd o'r Unigolyn.**

Mae hyn yn golygu nad yw OIFR yn gwneud unrhyw benderfyniad awtomataidd i baru'r delweddau. Y Gweithredwr sy'n gwneud y penderfyniad hwn – yn union fel y mae swyddogion yn gwneud penderfyniadau tebyg i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd bob dydd (heb gymorth OIFR). Y Gweithredwr sydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad hwn, gan ddefnyddio ei hyfforddiant a'i brofiad/phrofiad plismona.

Yn yr un modd, y Gweithredwr sydd yn y sefyllfa orau i ystyried effaith unrhyw Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System neu'r Amgylchedd a all fod wedi dylanwadu ar OIFR pan fydd yn dychwelyd y chwe chyfatebiad posibl ac a yw ffactorau o'r fath yn cyfuno i helpu i ymgysylltu ag aelod o'r cyhoedd ymhellach.

Y tu hwnt i Ffactorau sy'n ymwneud â'r Testun, y System a'r Amgylchedd, mae personél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd yn gyfarwydd â rheoli'r gofyniad o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus tra byddant yn ymgymryd â gweithgareddau plismona o blith nifer o dechnegau eraill ar gyfer ymladd yn erbyn troseddu, er enghraifft, 'stopio a chwilio'. Yn hyn o beth, mae'n bwysig bod y defnydd o OIFR yn cael ei ysgogi gan yr angen i gyflawni nod dilys, megis atal troseddau ac anhrefn. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn llywio'r
cynllun i gefnogi'r defnydd o OIFR i olygu bod Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yna, caiff cydymffurfiaeth â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei monitro a'i hadolygu yn ystod cynllun peilot OIFR.

5 Deddf Diogelu Data 2018

5.1 Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn prosesu data personol ar gyfer OIFR 'yn seiliedig ar y gyfraith'; yn benodol, eu pwerau cyfreithiol a nodwyd mewn perthynas â'r gyfraith gyffredin yn ogystal â hawliau dynol ac ystyriaethau sy'n ymwneud â chydraddoldeb fel y'u hamlinellwyd yn y Mandad Cyfreithiol hwn, a'r polisïau a roddwyd ar waith yn nogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae Dogfen Bolisi Briodol OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a dogfennau eraill a gyhoeddir fel Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent fel cyrff cyhoeddus yn galluogi'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n destun OIFR a'r rhai a all gael eu cynnwys ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau i ddeall y safonau y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn gweithredu'n unol â nhw, gan gynnwys nodi'r rheswm a'r seiliau dros ddefnyddio OIFR, manylion ynglŷn â ble y gellir defnyddio OIFR a'r ystyriaethau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol o ran pwy a all gael ei gynnwys ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau.

5.2 At ddibenion atal troseddau ac anhrefn, mae Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn rheoleiddio'r gwaith o brosesu data personol, gan gynnwys prosesu data sensitif, p'un a gânt eu prosesu ar gyfrifiadur, system teledu cylch cyfyng, delweddau llonydd neu gyfryngau eraill. Mae unrhyw ddelwedd wedi'i recordio o ddyfais a all ddatgelu enw unigolyn penodol yn 'ddata personol'. Felly, mae'r Ddeddf Diogelu Data yn gymwys i brosesu data ar gyfer OIFR o ran nodi'r rhai ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau ond hefyd o ran prosesu gwybodaeth fiometrig aelodau o'r cyhoedd er mwyn cadarnhau nad ydynt ar Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau. Daw'r gweithredoedd hyn o dan brosesu data at ddibenion gorfodi'r gyfraith, fel y'i diffiniwyd yn adran 31 o'r Ddeddf Diogelu Data:

"For the purposes of this Part, "the law enforcement purposes" are the purposes of the prevention, investigation, detection or prosecution of criminal offences or the execution of criminal penalties, including the safeguarding against and the prevention of threats to public security."

a) Ystyr cwbl angenrheidiol yn y cyd-destun hwn yw bod yn rhaid i'r gweithgarwch prosesu ymwneud ag angen dybryd ac nad yw'n rhesymol ymarferol diwallu'r angen hwn drwy ddefnyddio dulliau llai ymwthiol. Ni chaiff unrhyw ddata personol a gesglir drwy OIFR eu defnyddio mewn modd sy'n mynd yn groes i'r diben gorfodi'r gyfraith a nodwyd.

b) Gall y safon 'cwbl angenrheidiol' gael ei llywio gan y Gweithredwr wrth ystyried ffactorau gan gynnwys:

1. pa ddulliau plismona eraill a ddefnyddiwyd / a ddiystyrwyd wrth geisio adnabod unigolyn/unigolion ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau neu roi cyfres o fesurau diogelwch wedi'u teilwra;

2. pwysigrwydd cyflawni diben gorfodi'r gyfraith a'r posibilrwydd o gyflawni diben gorfodi'r gyfraith drwy ddefnyddio OIFR yn y lleoliad arfaethedig gyda'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau (er enghraifft, caiff y defnydd ei arwain gan gudd-wybodaeth bob amser neu ei ategu fel arall gan wybodaeth sy'n cadarnhau y gellir disgwyl i OIFR sicrhau canlyniadau o dan yr amgylchiadau sy'n cael eu hystyried):

3. maint a graddfa'r defnydd arfaethedig o OIFR a'r Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau gysylltiedig a lefel y prosesu sensitif a ragwelir o ganlyniad i'r defnydd o OIFR; *ac*

4. os yw diben gorfodi'r gyfraith sy'n sail i'r defnydd o OIFR yn gwbl angenrheidiol ac yn gymesur â'r angen i brosesu data sensitif a'r risg i hawliau unigolion sy'n gysylltiedig â hyn (yn amodol ar roi mesurau diogelwch ar waith).

Nodyn pwysig i Weithredwyr: Bydd angen i Weithredwyr fodloni eu hunain bod y gweithgarwch prosesu yn bodloni un o amodau Atodlen 8 neu amodau Erthygl 9 fel y'u nodir isod ac yn cydymffurfio â chwe egwyddor diogelu data.

5.3 Mae amodau Atodlen 8 o'r Ddeddf Diogelu Data yn codi:

- mae'n angenrheidiol at ddibenion barnwrol a statudol – am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd;
- mae'n angenrheidiol er mwyn gweinyddu cyfiawnder;
- mae'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd testun y data neu unigolyn arall;
- mae'n angenrheidiol er mwyn diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg;
- mae'n angenrheidiol er mwyn atal twyll.

Enghraifft: Bydd y defnydd o OIFR yn helpu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ymladd yn erbyn troseddu sy'n ymwneud â chyllyll i ategu eu pwerau plismona o dan y gyfraith gyffredin. Gellid defnyddio OIFR i adnabod troseddwyr y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt ar ôl iddynt fethu â chydymffurfio â mechnïaeth y llys sy'n ymwneud â throseddau o'r fath. Byddai OIFR, o gael ei defnyddio yn y ffordd hon, yn helpu i atal, canfod ac erlyn troseddau ac ymchwilio iddynt.

Mae OIFR yn cynnig manteision o'i chymharu â dulliau plismona posibl megis swyddog yr heddlu yn defnyddio llun neu ddisgrifiad o unigolyn lle y byddai canlyniadau cadarnhaol fel arall yn llai tebygol ac y byddai risg na fyddai pobl yn cael eu hadnabod. O ystyried pwysigrwydd mynd i'r afael â throseddau difrifol a threisgar, gellir nodi diben gorfodi'r gyfraith clir. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried y defnydd o OIFR yn gwbl angenrheidiol i gefnogi ymchwiliadau i droseddau'n ymwneud â chyllyll, er mwyn galluogi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i ymateb yn effeithiol i angen cymdeithasol dybryd.

Yn yr un modd, gellir ystyried bod yr amod yn Atodlen 8, sef ei bod yn angenrheidiol at ddibenion statudol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd yn y cyd-destun hwn yn cynnwys swyddog yr heddlu yn gweithio i atal, canfod neu erlyn troseddau neu ymchwilio iddynt er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

5.4 Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd wedi cymryd nifer o gamau yn unol â'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn rheoli a lliniaru effaith prosesu unrhyw ddata personol drwy ddefnyddio OIFR. Nodir camau gweithredu penodol yng ngweddill yr adran hon.

5.5 Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data:

Mae asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wedi cael ei gynnal i gefnogi'r defnydd o OIFR er mwyn nodi risgiau diogelu data a'u lleihau i'r eithaf. Er y caiff yr asesiad cyffredinol ei adolygu bob

blwyddyn, bydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg yn sicrhau y dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

a. a yw'r risgiau a'r rheolaethau yn dal i fod yn gyfredol ac yn ddigonol ar gyfer y defnydd arfaethedig o OIFR;
b. a yw'r defnydd arfaethedig o OIFR yn achosi unrhyw risgiau eraill y gellir eu lliniaru y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

5.6 *Diogelu Data drwy Waith Dylunio:*

Mae nifer o reolaethau diogelu data wedi cael eu hymgorffori yn OIFR er mwyn lleihau effeithiau prosesu data ar breifatrwydd a chydymffurfio â'r rhwymedigaeth gyffredinol yn Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data i roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith ar ôl ystyried ac integreiddio egwyddor diogelu data yng ngweithgareddau prosesu OIFR. Mae'r mesurau ymgorfforedig a nodwyd yn cynnwys mesurau i wneud y canlynol:

a. cyfyngu ar faint o ddata personol a gesglir;
b. cyfyngu ar weithgarwch prosesu data;
c. cyfyngu ar gyfnod storio data personol.

Hefyd, mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi cymryd camau i sicrhau bod OIFR yn perfformio i lefel lle mae cywirdeb ystadegol y data sy'n cael eu proses a thegwch 'drwy ddylunio' yn rhan annatod o OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent. Mae dogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent a gwybodaeth ategol gyhoeddedig arall yn esbonio sut mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn cael sicrwydd bod eu OIFR yn gweithredu'n unol â lefel uchel o gywirdeb ystadegol ac mewn ffordd nad yw'n arwain at ganlyniadau anghyfiawn rhwng grwpiau demograffig.

Mae OIFR hefyd yn cynnwys nifer o fesurau diogelwch ffisegol a thechnegol, gan gynnwys:

a. Mae OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau yn system gwbl gaeedig sydd â dwy haen o ddiogelwch drwy gyfrinair er mwyn defnyddio'r cymhwysiad.
b. Mae rheolaethau ar fynediad ar sail rôl â chaniatadau cyfyngedig i ddefnyddwyr yn rhan o'r system technoleg adnabod wynebau;
c. Caiff data eu hanfon rhwng y ddyfais OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau drwy Rwydwaith Preifat Rhithwir.
d. Caiff archwiliad llawn ei gynnal o'r holl weithredoedd a gychwynnir gan ddefnyddwyr wrth ddefnyddio OIFR;
e. Bydd unrhyw broblemau technegol gydag OIFR bob amser yn cael eu datrys gan aelod o'r staff technegol sy'n cefnogi'r defnydd o OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau.

5.7 Dogfen Bolisi Briodol:

Mae adran 42 o'r Ddeddf Diogelu Data ac Erthygl 30 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg prosesu, fod gan y rheolydd ddogfen bolisi briodol ar waith. Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi paratoi'r dogfennau hyn ac wedi'u cyhoeddi. Mae'r ddogfen hon yn galluogi'r cyhoedd i ddeall manylion y canlynol:

a. y data sy'n cael eu prosesu gan OIFR, pa mor aml y caiff data eu prosesu ac am bwy y caiff data eu prosesu;
b. gweithdrefnau, mesurau diogelwch ac egwyddorion atebolrwydd i gydymffurfio ag egwyddorion diogelu data wrth ddibynnu ar un o amodau Atodlen 8 i brosesu data personol biometrig i'r rhai ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a'r rhai sy'n destun ymholiad OIFR;
c. gweithdrefnau, mesurau diogelwch ac egwyddorion atebolrwydd i gydymffurfio ag egwyddorion diogelu data wrth ddibynnu ar un o amodau Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Rhan 2 o Ddeddf Diogelu Data ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno i brosesu data categori arbennig i'r rhai sydd ar y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau a'r rhai sy'n destun OIFR;
d. Polisi Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent ynglŷn â chadw a dileu data personol ar gyfer prosesu OIFR.

5.8 Swyddog Diogelu Data:

Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent wedi penodi Swyddog Diogelu Data er mwyn cydymffurfio â Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data yr ymgynghorwyd ag ef/hi mewn perthynas ag OIFR. Mae'r Swyddog Diogelu Data ar gael i hysbysu a chynghori'r Prif Gwnstabl (fel rheolydd data) a phersonél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent am eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data. Mae'r Swyddog Diogelu Data hefyd yn cyflawni swyddogaeth fewnol i fonitro cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data ac mae'n aelod gweithredol o'r Bwrdd Technoleg Adnabod Wynebau a Biometreg.

6 Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

6.1 Fel rhan o'r pwerau sydd gan Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent o dan y gyfraith gyffredin i ddiogelu bywyd ac eiddo, rydym yn prosesu data categori arbennig yn unol â gofynion Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (sydd wedi'i hymgorffori yng nghyfraith y DU o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno ac a ategir gan Ran 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno).

6.2 Mae'r amodau ar gyfer prosesu data categori arbennig a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent lunio Dogfen Bolisi Briodol, sy'n nodi ac yn esbonio ein gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (sy'n ymwneud â phrosesu data personol) a pholisïau sy'n ymwneud â chadw a dileu data personol o'r fath.

6.3 Mae amodau Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn codi:

- cydsyniad penodol;

- budd sylweddol i'r cyhoedd;
- ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol.

Mae adran 10 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn ategu Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, sy'n ei gwneud yn ofynnol i amodau canlynol Atodlen 1 gael eu bodloni pan fo Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn dibynnu ar fudd sylweddol i'r cyhoedd o dan Erthygl 9(2)(g).

6.4 Mae Atodlen 1 o'r Ddeddf Diogelu Data yn codi:

- ymchwil;
- dibenion ystadegol ac ati a dibenion ymchwil y llywodraeth; a
- diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg

Enghraifft: Bwriedir cynnal gwerthusiad academaidd o OIFR o ran tegwch. Bydd gweithgarwch rhannu data yn destun Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Bydd unrhyw weithgarwch rhannu data wedi'i gyfyngu o ran amser drwy lwyfan rannu ar y we yn hytrach na thrwy broses trosglwyddo data. Caiff partneriaid academaidd fynediad i'r llwyfan drwy gyfleuster mewngofnodi diogel am gyfnod cyfyngedig o amser. Dibynnir ar ddiben ymchwil wyddonol yma. Lle y bo'n bosibl defnyddir data wedi'u hanonymeiddio neu ddata o dan ffugenwau. Pan fo aelodau o staff yr heddlu yn cydsynio i'w delweddau gael eu defnyddio at ddibenion profi'r system neu werthuso ei pherfformiad, cesglir y cydsyniad hwn yn unol â safonau moeseg ymchwil cydnabyddedig. (Noder: nid yw cydsyniad a gesglir ar gyfer ymchwil yn cyfeirio at ddiffiniad diogelu data o gydsyniad).

7 Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

Yn sgil pasio Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 cyflwynwyd cod newydd ar gyfer camerâu gwyliadwriaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol a phenodwyd y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth. Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn ystyried y Cod ar ddefnyddio OIFR. Mae hyn yn cynnwys ystyried y 12 egwyddor arweiniol y dylai gweithredwyr y system eu mabwysiadu. Mae'r Cod yn gwneud nifer o bwyntiau penodol mewn perthynas â thechnolegau adnabod awtomataidd y mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn eu hystyried fel a ganlyn:

Cod	Dull gweithredu Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent
Gwybodaeth am brosesu teg i destunau data	Mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn prosesu gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i destunau data. Darperir gwybodaeth am OIFR a phrosesu data ar eu gwefannau.
Systemau cadw a gwaredu priodol	Ymdrinnir â'r systemau angenrheidiol yn nogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.
Mesurau diogelwch technolegol a ffisegol addas	Ymdriniwyd â'r mesurau hyn yn ystod y broses ddylunio ac maent hefyd wedi'u cwmpasu yn nogfennau OIFR Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent.
Camerâu o ansawdd digonol i gyflawni'r diben arfaethedig	Ymdrinnir â'r gofyniad hwn drwy ddyluniad OIFR a'r system technoleg adnabod wynebau.

Yn cael ei monitro gan unigolion hyfforddedig	Bydd OIFR bob amser yn dychwelyd chwe chyfatebiad posibl i aelod hyfforddedig o bersonél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent am benderfyniad ar unrhyw gamau pellach. Fel hyn, mae OIFR yn gweithio i helpu personél Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent i adnabod pobl yn hytrach na gweithredu fel proses beiriannol annibynnol heb unrhyw fewnbwn gan ddefnyddwyr.

8 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'n gwneud hyn mewn dwy ffordd:

8.1.1 mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth benodol am eu gweithgareddau;

8.1.2 mae gan y cyhoedd yr hawl i ofyn am wybodaeth gyhoeddus gan awdurdodau cyhoeddus.

Er mwyn cydnabod eu dyletswyddau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth mae Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent yn darparu cryn dipyn o wybodaeth am OIFR ar eu gwefannau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gryno am OIFR, gan gynnwys maint y Gronfa Ddata Cyfeirio Delweddau, dyddiadau treialu OIFR, y defnydd o OIFR, gan gynnwys arestiadau a phenderfynu achosion. Bydd Heddlu De Cymru/Heddlu Gwent hefyd yn ymateb i geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.